# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 12 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **09.33 - 11.45** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2508**

## Cofnodion Cryno:

**Aelodau'r Cynulliad:**

**David Rees AC (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar (Oscar) AC (yn lle Darren Millar AC)**
**Alun Davies AC**
**Janet Finch-Saunders AC**
**John Griffiths AC**
**Elin Jones AC**
**Lynne Neagle AC**
**Gwyn R Price AC**
**Lindsay Whittle AC**
**Kirsty Williams AC**

**Tystion:**

**Ditectif Arolygydd Richie Jones, Ffederasiwn yr Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr**
**Ditectif Brif Arolygydd Gary Phillips, TARIAN, Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol De Cymru**
**Paul Roberts, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**

**Staff y Pwyllgor:**

**Llinos Madeley (Clerc)**
**Helen Finlayson (Ail Clerc)**
**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**
**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Amy Clifton (Ymchwilydd)**

**Trawsgrifiad**
**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar. Dirprwyodd Mohammad Asghar ar ei ran.

## 2 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): Sesiwn dystiolaeth 5

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor ynghylch:

- camau sy'n cael eu cymryd gan heddluoedd ledled Cymru i atal y defnydd o sylweddau seicoweithredol newydd;
- camau sy'n cael eu cymryd gan y gwasanaethau cyhoeddus perthnasol i gydweithio a chydgysylltu gwasanaethau cymorth i unigolion sydd am roi'r gorau i gymryd sylweddau seicoweithredol newydd; a
- braslun o unrhyw fylchau o ran y gwasanaethau cymorth sylweddau seicoweithredol a ddarperir gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

## 3 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): Sesiwn dystiolaeth 6

**3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.**

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: gwybodaeth ddilynol yn dilyn 16 Hydref 2014

4.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

## 5 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(ix) a (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer eitem 1 y cyfarfod ar 20 Tachwedd 2014

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad.

## 7 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: trefniadau ymgynghori

7.1 Trafododd y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer ymgynghoriad yr ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau, gan gytuno arnynt.

## 8 Ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: trafod yr adroddiad drafft

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar ei ymchwiliad, yn amodol ar fân newidiadau, ar gyfer ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru.